Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Connick
Ysgol Gyfun Gwyr
Talbot Street
Tregwyr
Abertawe
SA4 3DB

19 Rhagfyr 2022

Annwyl Mr Connick,

**Ymweliad ysgol gan Estyn – Ysgol Gyfun Gŵyr**

Diolch am eich cefnogaeth i drefnu ein hymweliad â'r ysgol ar 22 Tachwedd 2022. Roedden ni'n falch o'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion, a chael clywed mwy am y gwaith rydych chi'n ei wneud i roi'r Cwricwlwm i Gymru a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Siarad ag uwch arweinwyr am ddatblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru a'r gwaith rydych chi'n ei wneud i gynorthwyo athrawon.
- Ymuno â'r gweithgor cynradd / uwchradd sydd wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu arferion yn gysylltiedig â mathemateg a rhifedd.
- Siarad â disgyblion ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9, a chlywed eu hadborth am y cwricwlwm.
- Ymweld â gwersi Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg grefyddol i weld disgyblion a staff yn gwneud eu gwaith.
- Siarad ag arweinwyr y chwe Maes Dysgu a Phrofiad am eu gwaith, a chlywed am y manteision a'r heriau y maent yn eu profi.
- Siarad â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'i dirprwy am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'u gwaith i ymateb i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

Roedd yn fuddiol i ni drafod eich datblygiadau o ran y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig y camau o greu gweledigaeth i gynllunio a gweithredu newidiadau i'r cwricwlwm ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8. Roedd hefyd yn fuddiol clywed yn uniongyrchol am rai o'r heriau gweithredol wrth ddiwygio ADY.

Hoffem i chi ddarparu cameo am waith y gweithgorau cynradd / uwchradd sydd ar waith ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn i ni allu ei rannu ar ein gwefan i ysgolion eraill glywed am eich gwaith. Byddwn yn cysylltu â chi trwy’r e-bost i roi mwy o fanylion.

Diolch eto am eich holl gymorth i gynllunio a threfnu ein hymweliad.

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol